



yr Athro



2021-2022

01970 639950
ucac@ucac.cymru
www.ucac.cymru

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Mawrth	Medi 2021	Hydref	Rhagfyr	Ionawr 2022	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehafin	Gorffennaf	Awst
1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1
2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2
3	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3
4	4	4	4	4	4	4	4	4	4	4	4
5	5	5	5	5	5	5	5	5	5	5	5
6	6	6	6	6	6	6	6	6	6	6	6
7	7	7	7	7	7	7	7	7	7	7	7
8	8	8	8	8	8	8	8	8	8	8	8
9	9	9	9	9	9	9	9	9	9	9	9
10	10	10	10	10	10	10	10	10	10	10	10
11	11	11	11	11	11	11	11	11	11	11	11
12	12	12	12	12	12	12	12	12	12	12	12
13	13	13	13	13	13	13	13	13	13	13	13
14	14	14	14	14	14	14	14	14	14	14	14
15	15	15	15	15	15	15	15	15	15	15	15
16	16	16	16	16	16	16	16	16	16	16	16
17	17	17	17	17	17	17	17	17	17	17	17
18	18	18	18	18	18	18	18	18	18	18	18
19	19	19	19	19	19	19	19	19	19	19	19
20	20	20	20	20	20	20	20	20	20	20	20
21	21	21	21	21	21	21	21	21	21	21	21
22	22	22	22	22	22	22	22	22	22	22	22
23	23	23	23	23	23	23	23	23	23	23	23
24	24	24	24	24	24	24	24	24	24	24	24
25	25	25	25	25	25	25	25	25	25	25	25
26	26	26	26	26	26	26	26	26	26	26	26
27	27	27	27	27	27	27	27	27	27	27	27
28	28	28	28	28	28	28	28	28	28	28	28
29	29	29	29	29	29	29	29	29	29	29	29
30	30	30	30	30	30	30	30	30	30	30	30
31	31	31	31	31	31	31	31	31	31	31	31



t3 Cwrdd â'r Gweinidog **t4-7 Cynhadledd** **t8 Boom!**

Gair gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol

Gyda nifer cynyddol o bobl yn derbyn y brechlyn mae'n siŵr bod temtasiwn i feddwl bod cyfnod y pandemig yn araf ddod i ben.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod angen parhau i fod yn hynod wyladwrus yn enwedig o ddarllen am yr amrywiadau i'r feirws.

Mae UCAC yn parhau i fynychu cyfarfodydd ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ble rydym yn trafod materion megis y Canllawiau Gweithredol, gan ymateb i'r dystiolaeth wyddonol ynghyd â phrofiadau aelodau'r undeb.

Yn ddiweddar rydym wedi bod yn cydweithio fel undebau i ystyried gorchuddion wyneb gan gyfarfod gydag arbenigwyr meddygol gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru a mudiadau megis BATOD (y gymdeithas ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda disgyblion byddar).

Drwy gydol y trafodaethau mae pwyslais parhaus wedi bod ar y mesurau lliniaru sef, meithrin arferion hylendid dwylo ac anadlol da ymysg dysgwyr ac aelodau o staff, gwisgo gorchuddion wyneb a sicrhau mesurau awyru priodol a pharhau â threfniadau glanhau trylwyr ychwanegol. Mae sicrhau asesiadau risg cyfredol a phriodol yn allweddol ar gyfer cynllunio unrhyw weithle diogel i staff, disgyblion, myfyrwyr ac ymwelwyr.

Rydym yn parhau i gyfarfod gydag Estyn, Colegau Cymru, CBAC, Cymwysterau Cymru a gydag elusennau ac asiantaethau sy'n edrych ar les yn y byd addysg gan gynnwys Education Support a Meddylgarwch Cymru.

Rydym eisoes yn edrych ymlaen tuag at fis Medi a thu hwnt yn ein trafodaethau. Ond wrth i ni edrych tuag at wyliau'r haf nid allwn orbwysleisio pa mor bwysig yw hi i chwi geisio cael rhywfaint o egwyl er mwyn lles eich corff a'ch meddwl.

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu bryder cofiwch bod UCAC yma i chi drwy gydol yr adeg.

Dilwyn Roberts-Young
Ysgrifennydd Cyffredinol

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Julia James
Is-Lywydd: Eirlys Edwards
Ysgrifennydd Cyffredinol: Dilwyn Roberts-Young
Cydylynydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: ucac@ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

"CHI WEDI NEUD GWAHANIAETH"

"Chi'n lej Syr"

"Diolch o galon am eich holl waith"

Diolch Miss

Teimlad o normalrwydd*

Mae'n braf bod nöl yn yr ysgol

"Chi wedi neud fy niwrnod i - diolch"

"Chi werth y byd"

"Diolch am fod yna i fi"

Cofiwch fod UCAC yma ar gyfer unrhyw ymholiad!
01970 639950 | ucac@ucac.cymru

Tâl Aelodaeth 2021-22

Prisiau wedi rhewi! Dyma fydd tâl aelodaeth UCAC o fis Medi 2021 – dim cynnydd o gwbl ar brisiau eleni.

Categori aelodaeth	Tâl blynyddol	Tâl misol
Llawr amser	£204.00	£17.00
Rhan amser 0.7-0.9	£171.00	£14.25
Rhan amser 0.4-0.6	£138.00	£11.50
Rhan amser 0.3 neu lai	£114.00	£9.50
Dan hyfforddiant/Hyfforddi yn y gweithle		AM DDIM
Blwyddyn galendr gyntaf o addysgu		AM DDIM
Ail flwyddyn galendr o addysgu		HANNER PRIS

Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth/Mabwysiadu/Rhiant a Rennir – aelodaeth hanner pris

Caiff athrawon sy'n talu eu tâl aelodaeth drwy ddebyd uniongyrchol, haneru eu taliadau misol yn ystod eu cyfnod o absenoldeb mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadu/rhiant a rennir - beth bynnag yw hyd yr absenoldeb hwnnw.

Cofiwch hysbysu'r Brif Swyddfa os ydych ar fin cymryd absenoldeb o'r fath.

Is-lywydd UCAC

Mae'n braf cael cyhoeddi mai Heulwen Howells fydd Is-lywydd UCAC o fis Medi ymlaen. Dyma i chi gyflwyniad iddi.

Heulwen Howells ydw i. Rwy'n byw gyda fy ngŵr Alan, ar fferm Cwmlainiogau, ym mhentref godidog a phrydferth Pen y Bont.

Mae gennym un ferch o'r enw Lowri, sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd. Rydw i yn enedigol o Ben y Bont ac wedi byw yn y pentref bach hwn fy holl fywyd. Symudais o un ochr o'r pentref i'r ochr arall pan fûm i briodi Alan yn 1985.

Rwyf wedi bod yn aelod o'r gweithlu addysg erioed hefyd. Bûm yn gynorthwywraig ddsbarth am 20 mlynedd cyn i mi hyfforddi fel athrawes yn 2006 ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant.

Ar ddechrau fy ngyrfa, treuliais flynyddoedd hapus dros ben yn gweithio gyda chydweithwyr arbennig yn ysgolion Llanboidy, Cynwyl Elfed, Hafodwenog, Cwmbach a Meidrim. Yn fy rôl fel cynorthwywraig ddsbarth cefais gyfle i ddysgu a datblygu fy nealltwriaeth a'm gwybodaeth am lawer o agweddau addysgol.

Bellach rwy'n athrawes Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Cenarth yng Ngheredigion, lle'r wyf wedi gweithio ers tair ar ddeg o flynyddoedd. Eto, braf yw cael treulio'r diwrnodau yng nghwmni cydweithwyr a phlantos hyfryd yn y pentref hardd ar lan y ffrydiau enwog.

Yn ystod fy amser yn yr ysgol hon, rwyf wedi datblygu fy sgiliau ymhellach gan taw fi yw'r athro â gofal yr ysgol pan nad yw'r pennaeth yn bresennol ar y safle. Yn sicr, yn sgil Covid 19 gellir dadlau fy mod wedi cael profiadau lu yn fy rôl fel athro â gofal gan nad oedd hi'n bosib i'r pennaeth fynychu'r ysgol yng Nghenarth.



Heulwen Howells, Is-lywydd UCAC

Datblygwyd fy nealltwriaeth o Addysg Blynnyddoedd Cynnar ymhellach yn ddiweddar gan i mi ddilyn a chael llwyddiant wrth ennill gradd Meistr yn y maes hwnnw.

Yn fy amser hamdden, rwy'n mwynhau garddio, codi arian ac yn siaradwr ar gyfer elusen Guide Dogs Cymru a threulio amser yn cael coffi a chlonc gyda fy chwirydd a ffrindiau arbennig.

Braint yw cael bod yn rhan o fywyd a gwaith Undeb UCAC. Rwyf wedi mwynhau fy amser fel cynrychiolydd i'r Adran Gydraddoldeb a'r Cyngor Cenedlaethol hyd yma ac edrychaf ymlaen at gael bod yn Is-lywydd yr Undeb eleni a gobeithiaf wneud fy ngorau glas wrth ymgymryd â'r rôl.

Cwrdd â'r Gweinidog

Bu i UCAC anfon ein dymuniadau gorau i Jeremy Miles AS yn ei swydd fel Gweinidog y Gymraeg ac Addysg - a derbyn gwahoddiad i'w gyfarfod deuddydd yn ddiweddarach!

Yn ddi-os roedd yn gyfarfod cadarnhaol iawn a chafwyd cyfle i drafod nifer o bynciau gan gynnwys: ariannu ysgolion; Cwricwlwm i Gymru; asesu/cymwysterau; anghenion dysgu ychwanegol, cynllunio'r gweithlu mewn ymateb i'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a rôl allweddol athrawon cyflenwi a'r angen argyfyngus iddynt gael telerau teg.

Roedd yn dda clywed gan y Gweinidog bod llesiant staff a disgyblion wrth i ni ddod allan o'r pandemig yn ystyriaeth ganolog, a chawsom gyfle i drafod yr her o fynd i'r afael â lleihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth. Bu i ni bwysleisio'r angen i asesiad llwyth gwaith a lles fod yn rhan greiddiol o bob ystyriaeth o waith sy'n deillio o'r Adran Addysg.



Jeremy Miles AS

Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda'r Gweinidog mewn ysbryd o bartneriaeth gymdeithasol.

CYNHADLEDD AMGEN UCAC

Ym mis Ebrill eleni, cafwyd cynhadledd rithwir gyntaf UCAC gyda niferoedd sylweddol o aelodau, o bob rhan o Gymru, yn ymuno i drafod pynciau oedd yn amserol iawn a ninnau mewn cyfnod o bandemig.

Sesiwn 1: Covid a thu hwnt – Pwy sy'n poeni am eich lles?

Cawsom gyflwyniad bywiog a diddorol gan **Dr Hanna Hopwood Griffiths sy'n ddarlithydd ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant.**

Esboniodd Hanna fel y bu iddi yn ystod y cyfnod clo cyntaf fynd ati i 'wneud bywyd yn haws' a hithau ar gyfnod mamolaeth. Dechreuodd gyfri Instagram i rannu syniadau ar les, sut i drefnu'r tŷ a'r teulu a cheisio cadw ysbryd wrth fynd trwy gyfnod mor heriol.



Dr Hanna Hopwood Griffiths

Arweiniodd hynny at raglen gyda Radio Cymru lle roedd yn cyflwyno gwesteion gwahanol a oedd yn trafod gwahanol agweddau o'u bywydau a sut roedden nhw'n ymdopi yn ystod y cyfnod.

Esboniodd iddi gael sgwrs gydag athrawes a oedd yn sôn am ei phrofiadau hi o geisio dysgu disgyblion uwchradd ar-lein gan geisio bod yn gefn iddyn nhw hefyd.

Un tip pwysig oedd gan Hanna oedd pwysigrwydd anadlu gan fod yr anadl yn gallu helpu rhywun yn fawr wrth geisio ymdopi gyda sefyllfaoedd heriol.

Gallwch glywed sgwrsiau Hanna ar BBC Sounds yma:
<https://www.bbc.co.uk/sounds/brand/m000pmtb>

A gallwch ei dilyn ar Instagram ar **#gbyhaws**

Cafwyd cyflwyniad trwyadl gan **Aeron Rees, Pennaeth Cwricwlwm a Lles, Adran Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin** gyda chymorth ei gydweithwyr Angharad Jones (Adran Addysg a Phlant) a Sion Walker (Adran Prif Weithredwr).



Aeron Rees

Gosodwyd yr ystyriaeth o les staff mewn cyd-destun cyn-Covid gyda 'llesiant pobl ifanc a staff yn ganolog i'n meddylfryd'. Wrth fesur effaith y pandemig roedd yn galonogol deall bod y 'rhan fwyaf o ysgolion wedi nodi bod lles cyffredinol eu disgyblion yn well na'r disgwyl ar ôl dychwelyd i'r ysgol' a bod 'agweddau llawer o blant at ddydsu yn gyffredinol dda'.

Fodd bynnag, mae bron bob pennaeth wedi 'nodi bod eu llwyth gwaith a'r angen i reoli canllawiau gweithredol yn anferthol ac yn llethol'.

Amlinellwyd y gwaith sy'n digwydd gan yr awdurdod gan bwysleisio nad yw effaith llawn y pandemig wedi dod i'r amlwg eto ac nad oes 'un ffon hud nac un rysâit' wrth ystyried lles staff a disgyblion.

Roedd yn gyfarfod eithriadol o werthfawr wrth i'r Cynadleddwyr ystyried eu lles eu hunain ac ymateb eu cyflogwr ym mhob cwr o Gymru i les y gymuned addysg.

Sesiwn 2: Dysgu'n ddigidol - beth ydym wedi dysgu ers Covid 19?

Profiad eithriadol o fuddiol oedd cael **Dilwyn Owen, Ysgol Bro Morgannwg** yn cynnig cipolwg ar y gwaith sydd wedi digwydd dros gyfnod Covid.



Dilwyn Owen

Roedd pob athro yn yr ysgol wedi derbyn gliniadur a'r ysgol wedi symud i ddefnyddio HWB o fewn pythefnos i'r clo.

Roedd yn ddiddorol deall bod yr ysgol wedi cadw at strwythur y dydd gyda chofrestru rithiol yn y bore a chofrestru pob gwrs gyda gwrsi byw a nosweithiau rhieni effeithiol wedi digwydd eleni.

Cafwyd gorolwg o'r meddalwedd oedd yn cael ei ddefnyddio megis Forms i greu cwis, Adobe Spark i greu gwefannau a ffilmiau ac Adobe Animate i greu animeiddiadau. Trwy gydol y cyflwyniad roedd pwyslais ar bwysigrwydd hyfforddiant ac hefyd roedd gwerthfawrogiad o gefnogaeth desg gymorth HWB.

Rhoddodd **Peter Thomas, Uwch Reolwr Ymgysylltu Ar-lein HWB** orolwg o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru gyfan gan ddangos yr ymgysylltu gyda 1.495 o ysgolion a gynhelir a 466,000 o ddysgwyr.



Peter Thomas

Yn wir, deallwyd bod cynnydd o 356% yn yr ymgysylltu dros gyfnod y pandemig. Yn allweddol i'r ymgysylltu mae'r buddsoddiad mewn cysylltedd band eang a'r partneriaethau megis cytundeb trwydded genedlaethol Microsoft.

Unwaith eto, roedd pwyslais ar hyfforddiant ac ar sicrhau diogelwch trwy ddiogelu data a sicrhau canllawiau defnyddwyr clir. Y nod yw bod ymarferwyr yn gallu gwreiddio technoleg, lle bo'n briodol, wrth gyflwyno profiadau addysgol gwerthfawr i'r disgyblion.

Cyn cloi, cafwyd cyfle i rannu profiadau ac i werthfawrogi'r modd mae athrawon wedi bod mor agored i addasu eu haddysgu dros gyfnod y pandemig.

Sesiwn 3: A'i dyma'r amser i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru?

Bu i **Ryan Chappell, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes, Caerdydd** agor y drafodaeth gan ddaclau bod unrhyw oedi yn andwyol i addysg disgyblion.



Ryan Chappell

Bu iddo gyfeirio at haeriad Lekha Sharman yn y gyfrol 'Curriculum to Classroom' bod gennym "a moral obligation as educators to ensure the

curriculum we provide for our pupils gives them more than just academic knowledge".

Dadluedd bod pedwar diben y cwricwlwm newydd yn caniatáu hynny ac mae hynny'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru wrth iddyn nhw nodi bod y 'tarfu diweddar wedi amlygu nawr yn fwy nag erioed y dylai addysg dysgwyr fod yn seiliedig ar y pedwar diben' a bod 'ymarferwyr yn datblygu ac yn newid eu dulliau mewn ymateb i'r sefyllfa sy'n newid'. (Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau: coronafeirws)

Bu i **Dr Llinos Jones, Pennaeth, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, Caerfyrddin**, ddadlau'n huawdl iawn dros oedi cyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.



Dr Llinos Jones

Rhoddodd sylw manwl i'r ffaith bod ysgolion wedi colli blwyddyn o baratoi oherwydd yr angen i ymateb i anghenion addysgu yn ystod pandemig. Byddai'n gwbl annheg i ddisgyblion pe na baent yn derbyn holl fuddion y Cwricwlwm newydd oherwydd nad oedd athrawon wedi cael cyfle i baratoi'n llawn.

Ymhelaethodd wrth ddweud na fydd yn bosib i athrawon uwchradd roi unrhyw sylw pellach tan fis Medi, ar y cynharaf, gan fod cymaint o lwyth gwaith yn codi o ddyfarnu cymwysterau eleni.

Bu trafodaeth fywiog a gwerthfawr yn dilyn y cyflwyniadau a'r cyfraniadau'n gymorth i swyddogion yr Undeb wrth ystyried yr heriau o'n blaenau.

ENILLYDD EIN HAMPER O NWDYDDAU CYMREG

Llongyfarchiadau mawr

NIA WILLIAMS O GONWY

MAE'E ENNILLYDDO BELLACH WEDI DERBYN YN HARPER. DIOLCH I SAVB AM GYMRD RHAN YN EIN CISTADLEUAETH A' DIOLCH I'R CWRNIAU CYHREIG ISOD

Yr Hen Lyfrgell Porth

Y Lolfa

TRIGRDIS

bodlon

helidlowen

CRWST

SESIWN LLES AC IECHYD MEDDWL

DYDD LLUN 5-7-21

DYDD MERCHER 7-7-21

6 O'R GLOCH DRWY ZOOM

Gorolwg ar gwaith sy'n digwydd ar ffin a tryn ym maes lleoedd gytunwys Fframwaith Ysgol Gyfan

- Pwyntiau newydd ESTYM ar les staff a disgyblion

ELFENNAU CYTUNDEBOL ER MWYN SICRHAU LLES:

- Amser Cymraeg, Paratol ac Amod
- Disgyblionau Cytunwysidd Bywyd a Gwaith

CEFNOGAETH GAN GYNNWYS:

- Stryddog Heffryd Gwynnigwaith
- Canllawiau ar y drafod gan y cyflogwr IACAC

CEFNOGAETH EHangach:

- Education Support - meddwl.org
- Cynnal Linc a Ymweilyddiaeth Dfalgae

Cyflwr i Ofyn Cwestiynau Neu i Ymateb i Amodau yn 2021 yn y 'sgers'

01970 639950 | ucacucac.cymru

Cynhaliwyd y sesiynau uchod i Athrawon Newydd Gymhwysu ddechrau'r mis. Caiff rhagor o sesiynau eu trefnu yn y flwyddyn ysgol newydd.

CYNHADLEDD AMGEN UCAC

Oherwydd y pandemig, am yr ail flwyddyn yn olynol ni fu'n bosib cynnal Cynhadledd Flynyddol yn y ffordd gymdeithasol, hwyliog arferol.

Er gwaethaf hynny, bu modd i aelodau wneud cynigion ynghylch meysydd gweithredu'r undeb trwy'r dulliau arferol – trwy'r cynadleddau sir, a chyfarfodydd Adrannau ac ati.

A gan nad oedd Cynhadledd Flynyddol i'w trafod eleni, cafodd y cynigion eu dirprwyo i'r Cyngor Cenedlaethol. Ar 19 Mai bu cyfarfod arlein o'r Cyngor Cenedlaethol a thrafodwyd pob un o'r cynigion. Dyma'r rhestr derfynol o'r penderfyniadau yn sgil y trafodaethau hynny.

Cefnogaeth i gau'r blwch

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gefnogi ysgolion yn eu hymdrechion i gau'r bylchau sylweddol sydd wedi datblygu yn ystod cyfnod y pandemig, o ran cyrhaeddiad a sgiliau addysgol, sgiliau cymdeithasol a lles emosiynol dysgwyr. Bydd angen cefnogaeth o ran datblygiad proffesiynol, ac adnoddau a staff ychwanegol.

(Cyngor Cenedlaethol)

Cyllido TGCh hirdymor

Gofynnwn i'r Llywodraeth sicrhau fod cyllido digonol ar gyfer darpariaeth, hyfforddiant ac adnoddau TGCh yn parhau wedi i gyfnod y pandemig ddod i ben. Gofynnwn hefyd bod pob Awdurdod Lleol yn sicrhau fod gweithredu effeithiol o'r cynllun presennol ac unrhyw gynllun y gwelwn yn y dyfodol, er mwyn diwallu'r anghenion yn llawn.

(Cymdeithas Sir Gwynedd)

Dysgu ddigidol

Mae'r Gynhadledd yn nodi pa mor gyflym mae system addysg Cymru wedi symud i gyfeiriad dysgu digidol yn ystod cyfnod y pandemig. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i ddatblygu pob agwedd o ddysgu digidol, gan gynnwys buddsoddi mewn sgiliau ac isadeiledd, hyd yn oed pan fydd dysgwyr wedi dychwelyd i addysg wyneb-yn-wyneb, er mwyn caniatáu i fanteision y dulliau hynny gael eu hymestyn.

(Cyngor Cenedlaethol)

Sgiliau dysgu digidol

Mae newidiadau darpariaeth addysg tuag at dysgu ar-lein, a'i amryw iteriadau, wedi cyflymu'r chwyldro technolegol yn y dosbarth. Mae athrawon wedi arbrofi, methu, datblygu, ac arloesi yn ystod cyfnodau clo. Mae hyn wedi aml dangos y proffesiwn yn cynorthwyo a chynghori'n (ad hoc) ac ar liwt eu hunain, weithiau dan arweiniad ysgol, yn aml wrth ymchwilio a dysgu 'wrth wneud y swydd' gydag help porwr we! Mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi mewn meddalwedd Microsoft er lles disgyblion a'r proffesiwn ond heb sicrhau hyfforddiant unigolion i'r feddalwedd angenrheidiol yma.

Credwn:

- mewn sefyllfa o ddarparu'r addysg orau posib i ddisgyblion yr unfed ganrif ar hugain mae angen athrawon yr unfed ganrif ar hugain
- y byddai hyfforddiant i athrawon ledled Cymru yn uwch-sgilio'r proffesiwn a sicrhau bod ein disgyblion yn meddu ar sgiliau'r gweithlu modern

- y gall darpariaeth genedlaethol cael ei chynnal yn fwy effeithlon ac yn llai gostus trwy ddefnyddio Teams a recordiau hyfforddiant

Mae UCAC yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo ac ariannu hyfforddiant cenedlaethol i uwch-sgilio athrawon yn y dulliau technoleg newydd fydd yn angenrheidiol yn y byd addysg newydd yng Nghymru yn dilyn y pandemig.

(Cymdeithas Sir Castell Nedd Port Talbot ac Abertawe)

Cyfathrebu gydag ysgolion

Mae UCAC yn deall yn llwyr yr angen am benderfyniadau byr-rybudd ar adeg eithriadol fel y pandemig Covid-19. Fodd bynnag, mae'r Gynhadledd yn gofyn i Lywodraeth Cymru i wneud pob ymdrech i gysylltu'n uniongyrchol ac yn fwy amserol gydag ysgolion ac awdurdodau lleol pan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud, er mwyn cael gymaint o rybudd â phosib cyn gweithredu ac er mwyn osgoi derbyn gwybodaeth bwysig trwy'r cyfryngau neu gan rieni. Bydd hwn yn caniatáu i arweinwyr a'u hysgolion ymbaratoi'n well yn aml i leihau gofidion dysgwyr a'u teuluoedd pan fyddant yn cysylltu, a thrwy hynny hyrwyddo lles eu rhanddeiliaid allweddol.

(Adran Arweinwyr Ysgol)

Canllawiau cyson

Mae UCAC yn gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod eu canllawiau'n sicrhau cysondeb gweithredu drwy'r wlad, gan ddefnyddio grym y gyfraith lle bo angen.

(Cymdeithas Sir Gwynedd)

Canllawiau clir

Mae UCAC yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau clir, diamwys, wrth ystyried anghenion y cyfnod presennol. Yn benodol, mae UCAC yn gofyn bod y disgwyliadau o ran CPA yn cael eu gwneud yn gwbl glir.

(Cymdeithas Sir Conwy)

Amseru cyflwyno'r cwricwlwm newydd

Mae UCAC yn llwyr cefnogi Cwricwlwm i Gymru a'r trawsnewidiad i addysg a ddaw yn ei sgil; mae ei angen yn fwy nag erioed. Er mwyn sicrhau y caiff ei gyflwyno'n effeithiol, gan barchu'r weledigaeth arloesol a rhaglen ddatblygu Llywodraeth Cymru, bydd angen amser digonol ar gyfer cyd-gynllunio, ar gyfer cyd-drafod gyda dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr, ac ar gyfer cynllunio profiadau cyfoethog. Mae'r rhain oll bron yn amhosib i'w cyflawni mewn cyfnod o bandemig. Am y rheswm hwnnw, mae'r Gynhadledd yn gofyn i Lywodraeth Cymru fod yn hyblyg o ran amserlen cyflwyno'r cwricwlwm, ac o ran unrhyw drefniadau atebolrwydd a ddaw yn ei sgil.

(Adran Arweinwyr Ysgol)

Amser paratoi digonol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd

Cefnoga UCAC Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm sy'n hyblyg, yn eang ac yn addas at anghenion cenedl yn yr unfed ganrif ar hugain. Fodd bynnag, yn sgil y pandemig a'r holl ofynion ychwanegol digynsail sydd wedi bod ar athrawon ac arweinwyr, mae'r Gynhadledd yn pryderu nad oes amser paratoi digonol cyn mis Medi 2022. Galwa'r Gynhadledd ar Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y diwrnodau HMS yn y flwyddyn ysgol 2021-22 er mwyn caniatáu'r amser digyswllt angenrheidiol, ar y cyd, i baratoi i gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn effeithiol ac yn hyderus.

(Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu)

Oedi cyflwyno'r cwricwlwm newydd

Galwn ar Lywodraeth Cymru i oedi'r broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru oherwydd y sefyllfa COVID-19. Nid yw'r amserlen o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022 yn cydnabod y pwysau gwaith ychwanegol sydd wedi effeithio ar ysgolion er mwyn glynu at yr amserlen gwreiddiol yma.

(Cymdeithas Sir Castell Nedd Port Talbot ac Abertawe)

Hanes Cymru

Mae'r Gynhadledd yn mynegi siom o'r mwyaf bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod pob ymdrech i sicrhau fod Hanes Cymru, yn ei holl amrywiaeth, yn cael ei nodi fel maes penodol yn y cwricwlwm newydd. Pwyswn ar Lywodraeth Cymru i newid safbwynt ar y mater hwn er mwyn sicrhau y caiff pob dysgwyr yng Nghymru fynediad at ddysg o safon am hanes eu gwlad.

(Cyngor Cenedlaethol)

Gofynion a rôl Estyn

Wrth i drefniadau arolygu ysgolion ail ddechrau ar ôl saib o flwyddyn ysgol, mae UCAC yn galw ar Estyn i weithredu'n synhwyrol yn y cyfnod anodd yma yn sgil y pandemig. Gofynnwn i'r pwyslais fod ar gefnogi ysgolion, yn hytrach na bod yn feirniadol, ac i sicrhau nad yw ysgolion yn derbyn pwysau annerbyniol wrth geisio diwallu eu hanghenion. Pwysleiswn bwysigrwydd ystyried cyrhaeddiad disgyblion yn llawn heb oedi i ddisgwyl canlyniadau arholiadau allanol safonol.

(Cymdeithas Sir Gwynedd a'r Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith)

Arolygiadau Estyn

Mae UCAC yn gofyn i Lywodraeth Cymru oedi pob ymweliad gan Estyn am y ddwy flynedd nesaf fel y gall athrawon fynd yn ôl at yr hyn sydd yn bwysig yn ystod y cyfnod yma, sef addysgu plant.

(Cymdeithas Sir Gwynedd)

Apeliadau i ddyfarniadau graddau

Mae'r Gynhadledd yn nodi y caiff trefniadau amgen eu gweithredu gan na fydd modd cynnal arholiadau allanol yn ystod haf 2021. Mae gennym bryder ynghylch sut y gweithredir hawl dysgwyr i apelio yn erbyn y graddau a ddyfarnir iddynt gan eu canolfan. Rydym yn rhagweld y gallai apeliadau o'r fath greu tensiynau rhwng ysgolion a dysgwyr a'u teuluoedd, ac mi allai arwain at lwyth gwaith difrifol i ysgolion, a hynny yn ystod y gwyliau haf.

(Cyngor Cenedlaethol)

Asesu yn y dyfodol

Mae'r Gynhadledd yn nodi fod trefniadau amgen wedi'u gweithredu gan na fu modd cynnal arholiadau allanol yn ystod haf 2020 na haf 2021. Er na fu hyn yn ddelfrydol i ddisgwyr nac athrawon oherwydd yr amgylchiadau, credwn fod cyfle i ail-edrych ar ein trefniadau asesu allanol, yn enwedig yn sgil dyfodiad Cwricwlwm i Gymru, mewn ffordd fwy pellgyrhaeddol nag y bwriadwyd.

(Cyngor Cenedlaethol)

TGAU Cymraeg a Saesneg

Mae'r Gynhadledd yn pryderi ynghylch ymgyngoriad Cymwysterau Cymru sy'n cynnig creu TGAU Saesneg laith a Llenyddiaeth gyfun newydd a TGAU Cymraeg laith a Llenyddiaeth gyfun newydd i ddisodli'r cymwysterau TGAU presennol sy'n cael eu cynnig ar wahân. Byddai'r fath cyfuniad yn lleihau mynediad gyflawn ein disgyblion i lenyddiaeth ac yn groes i amcanion Cwricwlwm i Gymru sy'n nodi'n glir bod angen amrywiaeth o brofiadau llenyddol ar ddisgyblion.

(Cyngor Cenedlaethol)

Fframwaith laith Gymraeg

Mae UCAC yn croesawu'n fawr ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu Cymraeg Ail laith ac i greu Continwmm y Gymraeg – er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd eu llawn potensial, fel ym mhob pwn arall. Mae UCAC yn cymhell Llywodraeth Cymru i greu Fframwaith laith Gymraeg statudol fydd yn rhoi canllaw clir i ysgolion ynghylch y cynnydd y disgwylir iddynt ei wneud mewn perthynas â'r Gymraeg dros gyfnod, a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt i wneud hynny. Byddai'r Fframwaith yn gwneud y cysylltiad yn glir rhwng

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol, iaith darpariaeth ysgolion, a'r datblygiad y disgwylir.

(Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu)

Strwythur y flwyddyn ysgol

Mae cyfnod y pandemig wedi tarfu'n sylweddol ar y flwyddyn ysgol 2019-20 a 2020-21. Mae'r tarfu yn ei dro wedi esgor ar awgrymiadau ynghylch newid tymhorau ysgol i geisio digolledu rhywfaint o'r amser dysgu wyneb-yn-wyneb a gollwyd. Mae'r Gynhadledd Flyneddol yn gofyn i Lywodraeth Cymru ail-edrych, yn bwyllog, ar strwythur y flwyddyn ysgol, mewn ymgyngoriad llawn â rhanddeiliaid, gan gynnwys y gweithlu addysg, nid er mwyn ceisio unioni cyfnodau coll, ond er mwyn creu patrwm i'r flwyddyn ysgol sy'n hyrwyddo'r patrymau mwyaf effeithiol o ddysgu, ac sy'n gydnaws â strwythurau cymdeithasol yr unfed ganrif ar hugain.

(Cyngor Cenedlaethol)

Polisiau addysg

Rydym yn galw ar holl bleidiau'r Senedd i ystyried yr amgylchiadau digynsail presennol wrth gynllunio polisiau addysg yng Nghymru yn y blynyddoedd nesaf. Gyda chwricwlwm newydd, gweithdrefnau ADY sy'n adnewyddu'n llwyr a goblygiadau dal fyny yn y tymor canol yn codi llwyth gwaith - gofynnwn i'r pleidiau ymrwymo i beidio a chyflwyno unrhyw newidiadau pell-gyrhaeddol fydd yn cynyddu llwyth gwaith ysgolion ac athrawon.

(Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith)

Blaenoriaeth i frechu athrawon

Mae UCAC o'r farn y dylai athrawon dderbyn blaenoriaeth wrth frechu'r boblogaeth gan bod disgwyl iddynt darparu gwasanaeth ar y rheng flaen. Galwn ar Lywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau hyn ar fyrder.

(Cymdeithas Sir Conwy a Chymdeithas Sir Gwynedd)

Cysoni a rheoli gofynion llwyth gwaith

Mae UCAC yn galw ar y Consortia a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gofynion llwyth gwaith yn gyson ar bob athro, a bod ystyriaeth o ddifri yn cael ei rhoi i lefel y llwyth gwaith yn ystod y cyfnod presennol.

(Cymdeithas Sir Conwy)

CPA – canllawiau a chyllid digonol

Mae CPA yn hanfodol a dylid sicrhau fod y Llywodraeth yn gosod y canllawiau angenrheidiol mewn lle ac yn darparu cyllid digonol i sicrhau fod pob athro yn derbyn yr amser CPA sydd yn hawl o fewn cytundeb gwaith athro.

(Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith)

Tâl ac amodau gwaith teg i athrawon cyflenwi

Galwa'r Gynhadledd ar Lywodraeth Cymru i gydnabod methiant pob cynllun a weithredwyd ganddynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf i geisio gwella tâl ac amodau gwaith athrawon cyflenwi, ac i symud yn ddiymdroi i system sy'n gwarantu tâl ac amodau gwaith statudol i athrawon cyflenwi (gan gynnwys mynediad at y Cynllun Pensiwn Athrawon), gan ddefnyddio system ar-lein i drefnu cyflenwi sy'n hylaw i ysgolion ac athrawon.

(Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith)

Polisi rhewi cyflogau San Steffan

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i beidio dilyn polisi rhewi cyflogau'r sector gyhoeddus a gyhoeddwyd gan Lywodraeth San Steffan ond yn hytrach i ystyried yr hyn mae athrawon a phenaethiaid yn haeddu fel codiad cyflog yn sgil y cylch gorchwyl a gynhaliwyd eleni gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.

(Adran Gyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwaith)

Amser undebol a rhyddhau Llywydd

Galwn ar swyddogion yr undeb i godi mater amser undebol gydag ADEW, ac yn benodol i drafod trefniadau wedi'u cytuno o ran rhyddhau aelod i weithredu fel Llywydd Cenedlaethol.

(Cymdeithas Sir Conwy)

Boom!

Mae Twinkl mewn partneriaeth â S4C a Boom wedi darparu cyfres o adnoddau gwyddonol Cymraeg ar gyfer sioe wyddonol arbennig, Boom!

Mae 'na Syniadau ar gyfer Arbrofion, Tafenni Gweithgaredd a Dyfeisiau'r Dyfodol - y cyfan wedi'u creu i gyd-fynd â chlipiau gwyddonol Boom.

Mae pob adnodd wedi'i gynllunio fel gweithgaredd cyflym a rhwydd i'w ddefnyddio, ac wedi'u hanelu at oedrannau hŷn Cyfnod Allweddol 2 ac oedrannau ifancaf Cyfnod Allweddol 3.

Rhagor o wybodaeth:

<https://www.twinkl.co.uk/resources/twinkl-partnerships/boom-partnerships>

<https://www.s4c.cymru/cy/stwnsh/boom/>



Cyflog ac amodau gwaith athrawon ysgol

Ar 11 Mehefin, cyhoeddwyd trydydd adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, gyda'i argymhellion ar gyfer y flwyddyn ysgol 2021-22.

Dyma rai o'r prif argymhellion:

- Cynyddu pob pwynt graddfa statudol ar bob graddfa gyflog, a phob lwfans, 1.75%
- Dylid cynnwys y diffiniad o hygludedd cyflog mewn set o egwyddorion gorfodol a disgresiynol i'w hymgorffori yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau o fis Medi 2021
- Dylai Llywodraeth Cymru hwyluso trefniadau ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar bolisi cyflog enghreifftiol ar lefel genedlaethol, gan ddileu'r angen felly i'r gwaith hwn gael ei ailadrodd ar draws consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol
- Dylid ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod strwythur cyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr yn cwmpasu'r dyheadau at y dyfodol, yng ngoleuni'r uchelgeisiau ar gyfer addysg yng Nghymru, cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, a'r gwersi a ddsygwyd o'r pandemig, gan gynnwys y materion canlynol:
 - o ymgymryd â gwaith, ochr yn ochr â gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru), i bennu sut dylid cydnabod Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ariannol
 - o ymgynghori ar newid i ganiatáu i athrawon rhan-amser dderbyn taliadau CAD1 a CAD2 amser llawn, gan gynnwys y gallu i ysgolion ddefnyddio'u disgresiwn eu hunain wrth wneud dyfarniadau o'r fath
 - o ystyried llwyth gwaith athrawon ac arweinwyr, a phriodoldeb y model Oriau Cyfeiriedig ac amser CPA
 - o rhoi ystyriaeth i gynnwys athrawon cyflenwi o fewn darpariaethau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau

Mae'r Gweinidog Addysg wedi dweud ei fod yn fwriad ganddo dderbyn pob un mewn egwyddor.

Bydd cyfnod ymgynghori byr ar gyfer rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys undebau athrawon, cyn i'r Gweinidog gadarnhau ei benderfyniadau.

Mae'r rhestr gyfan o argymhellion (a bwriad gweithredu'r Gweinidog) ar gael fan hyn, yn ogystal â dolen i'r adroddiad llawn:

<https://llyw.cymru/datganiad-vsgrifenedig-adroddiad-ac-ar-gymhellion-gan-gorff-adolygu-cyflogau-annibynnol-cymru>